**GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU**
Nodyn Cyfarfod – 28 Tachwedd 2016, Merthyr Tudful

**Yn bresennol**

**Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| Andrew Jacobs (AJ) | Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru |

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

| | |
|---|---|
| Charlotte Anscombe (CA) | Uned Cynhwysiant Ariannol |
| Helen Freese (HF) | Addysg |
| Sally Hunt (SH) | Cydraddoldeb a Ffyniant |
| Erika Helps (EH) | Uned Cynhwysiant Ariannol |
| Amelia John (AmJ) | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Cymunedau |
| Kathryn Markey (KM) | Uned Cynhwysiant Ariannol |
| Karl Thomas (KT) | Yr Is-adran Polisi Tai |

**Aelodau / Dirprwyo dros Aelodau**

| | |
|---|---|
| Joe Allen (JA) | Swyddog Polisi ABCUL Cymru |
| Danielle Cope (DC) | Gweithredu dros Blant |
| Elizabeth Emmons (EE) | Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon Cymru |
| Rhys Evans (RE) | Aelod Annibynnol |
| Lisa Hayward (LH) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Leanne Herberg (LH) | Undeb Credyd Caerdydd a’r Fro |
| Rhian Hughes (RH) | Hyrwyddwr Cynhwysiant Ariannol, Canolfan Cydweithredol Cymru |
| Craig Lane (CL) | Cyngor ar Bopeth Cymru |
| Sean O’Neill (SO’N) | Plant yng Nghymru |
| Lee Phillips (LP) | Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) |
| Jayne Simpson (JS) | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli Tony Kirk) |
| Iwan Williams (IW) | Swyddfa’r Comisiynydd Pobl Hŷn |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Jan Morgan (JM) | Llywodraeth Cymru, Uned Cynhwysiant Ariannol |

**Ymddiheuriadau am absenoldebau**

| | |
|---|---|
| Ian Albert (IA) | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Farida Aslam (FA) | Tai Sir Fynwy |
| Jonathan Brenchley (JB) | Cysylltiadau Corfforaethol, Cymru a Gorllewin Lloegr, Banc Barclays |
| Paul Langley (PL) | Tai Cymunedol Cymru |
| Tony Kirk (TK) | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli buddiannau’r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Cymru) |
| Helen Matthews (HM) | Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd Cynhwysol) |
| Geraint Willington (GW) | Consortiwm Addysg |
| Beverley Morgan (BM) | Llywodraeth Cymru, Cydraddoldeb a Ffyniant |

**GRŴP LLYWIO CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU**
Nodyn Cyfarfod – 28 Tachwedd 2016, Merthyr Tudful

| | |
|---|---|
| Pat McCarthy (PMc) | Llywodraeth Cymru, Addysg (Pynciau Craidd y Cwricwlwm) |

**1. Croeso, Cofnodion a Materion yn codi**

1.1 Croesawodd AJ yr aelodau i ail gyfarfod y Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol a diolchodd iddynt am ddod. Estynnodd AJ groeso i Jayne Simpson a oedd yn dirprwyo ar ran Tony Kirk, Helen Freese ar ran Pat McCarthy a Sally Hunt ar ran Beverley Morgan.

1.2 Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 14 Hydref 2016 fel cofnod cywir. Cytunodd yr Aelodau y dylid cyhoeddi'r holl nodiadau cyfarfodydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Hefyd, cafodd diwygiadau i'r Cylch Gorchwyl a awgrymwyd yng nghyfarfod mis Hydref eu derbyn a chytunwyd ar y Cylch Gorchwyl. Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau.

1.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**2. Diweddariad a thrafodaeth ar y drafft o'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol.**

2.1 Rhoddodd KM drosolwg byr o'r cynnydd a wnaed hyd yma ynglŷn â datblygiad y drafft o'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol (y Cynllun Cyflawni) ac amlinellodd sut y byddai'r Cynllun Cyflawni yn cael ei adolygu yn y dyfodol. Cyhoeddir adolygiad blynyddol bob mis Rhagfyr i ystyried cynnydd ac adolygu camau gweithredu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Yn dilyn trafodaethau yn y Grŵp, efallai y caiff rhai camau gweithredu eu hychwanegu, eu diwygio neu eu dileu fel y bo'n briodol. Bwriedir i'r Cynllun Cyflawni fod yn ddogfen fyw ar-lein y gellir ei chadw am y 5 mlynedd nesaf dros oes y Llywodraeth bresennol.

2.2 Eglurodd fod y Cynllun Cyflawni'n cyd-fynd â strategaethau a chynlluniau gweithredu eraill, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor Llywodraeth Cymru, y Strategaeth Gallu Ariannol ar gyfer Cymru a Strategaeth Undebau Credyd Cymru. Bydd gan bob un o'r cynlluniau gweithredu neu'r strategaethau hyn eu trefniadau llywodraethu eu hunain, ond bydd eu cynnydd yn cael ei ymgorffori yn yr adolygiad blynyddol o'r Cynllun Cyflawni.

2.3 Nododd KM fod Ymrwymiad 15 yn y Cynllun Cyflawni yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Gallu Ariannol sy'n cynnwys 77 o gamau gweithredu'n ymwneud â 5 grŵp penodol, gan gynnwys Plant/Pobl Ifanc a Phobl Hŷn. Mae swyddogion yn trafod gyda MAS ynglŷn â sut y byddant yn cyhoeddi diweddariadau cynnydd y gellir eu cysylltu â chynnydd o ran adrodd ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol

2.4 Darparodd AJ a EH y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Chynhwysiant Digidol a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor.

2.5 Nododd KM ei bod wedi cyfarfod ag Undebau Credyd Cymru yn eu cyfarfod Grŵp Arfer Dda ddydd Mercher 23 Tachwedd. Y Grŵp hwn fydd y prif gyswllt ar gyfer Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 a'r Cynllun Cyflawni ar Lefel Cymru gyfan, ynghyd â Joe Allen (ABCUL).

2.6 Dywedodd KM fod grwpiau penodol wedi cael eu hystyried, gan gynnwys pobl sy'n agored i niwed. Dangosodd adborth yn ystod y broses o ddatblygu'r Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni fod pobl sy'n agored i niwed yn aml yn ffurfio perthynas o ymddiriedaeth â gweithwyr cymorth allweddol, sydd yn y sefyllfa orau i helpu'r unigolyn i ddod o hyd i gyngor a chymorth pellach ar faterion eraill, gan gynnwys cynhwysiant ariannol. Mae'r Cynllun Cyflawni yn cydnabod hyn gyda cham gweithredu penodol o dan Ymrwymiad 13 er mwyn sicrhau bod gweithwyr rheng flaen o'r fath yn gallu cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a hyfforddiant perthnasol os yw'n briodol, i gefnogi eu cleientiaid.

2.7 Diolchodd KM i'r aelodau a oedd wedi darparu sylwadau ar ddrafft cynnar o'r Cynllun Cyflawni a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Cafodd fersiwn wedi'i diweddaru, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at y sylwadau hynny, ei chyflwyno i'w thrafod. Esboniodd KM y byddai'r adborth o'r drafodaeth yn llywio'r fersiwn derfynol o ddogfen y Cynllun Cyflawni. Nododd KM y byddai'r aelodau hefyd yn gallu darparu sylwadau ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod.

2.9 Cafwyd trafodaeth eang a oedd yn cwmpasu pob ymrwymiad yn y Cynllun Cyflawni. **Cam Gweithredu**: KM i gylchredeg y diwygiadau i'r Cynllun Cyflawni fel y trafodwyd yn ystod y cyfarfod. **Cam Gweithredu**: Aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol i ddarparu sylwadau/gwneud awgrymiadau ar unrhyw ddiwygiadau terfynol i'r Cynllun Cyflawni drafft erbyn canol dydd, dydd Mawrth 6 Rhagfyr.

## ***3. Camau nesaf ac unrhyw fater arall***

3.1 Diolchodd AJ i aelodau'r Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol am eu cyfraniad a'u sylwadau adeiladol.

**Jan Morgan**
Rhagfyr 2016